ADNODD DYSGU YSGOLION

**Gwasanaeth i blant 7 i 14 oed (15 munud)**

# Teyrnged i Nelson Mandela

POVERTY

**Nod:** ystyried dewrder pobl sydd wedi sefyll yn erbyn anghyfiawnder; dathlu bywyd a'r hyn lwyddodd Nelson Mandela i'w wneud.

**Adnoddau/paratoadau:**

- Cyflwyniad PowerPoint *Teyrnged i Nelson Mandela* (dewisol)

## Cyflwyniad

**Dangos sleid 1.** Gofynnwch i bawb sefyll. Dwedwch wrthyn nhw am feddwl am rywbeth sy'n bwysig iddyn nhw neu rywbeth maen nhw'n hoffi ei wneud, fel chwarae gyda'u ffrindiau, mynd ar gefn beic neu berchen anifail anwes. Dwedwch eich bod am iddyn nhw ystyried pa mor bell byddan nhw'n barod i fynd i amddiffyn y peth yna, (neu barhau i'w wneud). Dwedwch wrthyn nhw am eistedd pan ddwedir rhywbeth na fyddant yn barod i'w wneud.

- *Byddech chi'n barod i roi'r gorau i wylio eich hoff raglen deledu?*
- *Byddech chi'n barod i fynd heb arian poced neu rywbeth neis am wythnos gyfan?*
- *Byddech chi'n barod i fynd heb fwyd am ddiwrnod cyfan?*
- *Byddech chi'n barod i gael eich hun mewn trwbl?*

*Mae rhai pobl yn barod i fynd tipyn pellach na hynny er mwyn amddiffyn y pethau sy'n bwysig iddyn nhw neu er mwyn newid pethau maen nhw'n credu sy'n annheg.*

*Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am rywbeth maen nhw'n credu sy'n annheg iawn yn y byd. Dros y canrifoedd, mae pobl wedi bod yn barod i fentro llawer er mwyn sefyll dros yr hyn sy'n cyfrif iddyn nhw; y pethau sy'n wir bwysig. Yn aml, mae hyn wedi golygu mynd i drwbl - neu hyd yn oed rhoi eu bywydau mewn perygl - er mwyn siarad yn erbyn rhywbeth roedden nhw'n teimlo oedd ddim yn iawn.*

**Dangos sleid 2.** Gofynnwch i'r disgyblion os ydyn nhw wedi clywed am Nelson Mandela. Beth maen nhw'n gwybod amdano?

*Roedd Nelson Mandela yn berson oedd yn barod i fentro popeth - gan gynnwys ei ryddid - er mwyn sefyll dros yr hyn roedd e'n credu oedd yn iawn. Roedd yn byw yn Ne Affrica, ar adeg pan roedd y bobl yno yn byw o dan drefn a elwir apartheid. Roedd apartheid yn golygu bod y llywodraeth yn trio cadw pobloedd oedd o hiliau gwahanol ar wahân, ac roedd rheolau gwahanol iawn i bobl groenddu a phobl gwyn.*

**Dangos sleid 3.** *O dan y drefn apartheid nid oedd pobl groenddu a phobl gwyn yn cael priodi ei gilydd; roedd yn rhaid iddyn nhw fyw mewn llefydd gwahanol ac fe'u gorfodwyd i ddefnyddio ysgolion, parciau, bysys ac ysbytai gwahanol. Pasiwyd deddf apartheid yn 1950, Deddf Cofrestru'r Boblogaeth, ac fe arweiniodd hyn at bobl yn cael eu dosbarthu'n grwpiau hiliol - weithiau byddai pobl o'r un teulu yn cael eu rhoi mewn grwpiau hiliol gwahanol gan rannu teuluoedd. Roedd pobl groenddu De Affrica yn cael eu trin yn wael iawn o dan y drefn apartheid, ac roedd llawer ohonyn nhw'n dlawd iawn.*

**Dangos sleid 4.** *Roedd Nelson Mandela'n credu bod y drefn hiliol hon yn wirioneddol ddrwg, ac fe ddechreuodd ymwneud â gwleidyddiaeth er mwyn ceisio stopio apartheid. Oherwydd ei weithgarwch gwleidyddol, cafodd ddedfryd o garchar am oes, ac fe dreuliodd 27 mlynedd yn gaeth. Wedi ei ryddhau, etholwyd Mandela yn arlywydd croenddu cyntaf De Affrica. Ers hynny fe ddaeth yn arwr i lawer o bobl sydd am weld mwy o gyfartaledd a thegwch yn y byd. Gofynnwch i'r disgyblion beth maen nhw'n meddwl am hyn. Sut fyddai i fyw o dan drefn apartheid? Gallwch chi ddychmygu cael eich gwahardd rhag mynd i rai dosbarthiadau neu siopau neu doiledau, dim ond oherwydd lliw eich croen? Gallwch chi ddychmygu pa mor ofnadwy fyddai cael eich gwahanu oddi wrth ffrindiau a theulu oherwydd bod y llywodraeth wedi penderfynu bod pobl o hiliau gwahanol i gael eu cadw ar wahan?*

*Gorffennodd apartheid yn 1990. Er bod llawer o bethau sy'n dal yn annheg iawn yn y byd, y mae erbyn hyn lawer mwy o gydraddoldeb yn Ne Affrica ac mewn gwledydd eraill ar draws y byd. Mae'r mwyafrif o bobl yn deall erbyn hyn fod hiliaeth yn beth drwg iawn, ac mae llawer o'r*

cymorth cristnogol

Lluniwyd y deunydd hwn i bwrpas addysgiadol.
I'w rhannu'n ehangach neu er elw masnachol rhaid cael caniatâd Cymorth Cristnogol.
© Cymorth Cristnogol Rhagfyr 2013

*diolch am hynny i bobl ysbrydoledig fel Nelson Mandela, a gododd ei lais er mwyn gwneud y byd yn lle gwell - hyd yn oed pan nad oedd yn hawdd, neu gyffyrddus neu'n ddiogel i wneud hynny.*

*Dangosodd Nelson Mandela dipyn o ddewrder yn siarad yn erbyn anghyfiawnder, a thipyn o amynedd a chryfder pan oedd yn y carchar. Fe ddangosodd hefyd faddeuant ac addfwynder ar ôl ei ryddhau. Yn hytrach na cheisio dial ar y bobl oedd wedi ei garcharu mor hir, fe ddaliodd ati i siarad dros heddwch ac am fyd tecach.*

**Dangos sleid 5.** *Er cymaint y bu'n rhaid iddo ddioddef yn y carchar, a'r holl hiliaeth a chasineb roedd wedi profi, ni chollodd Nelson Mandela ei obaith yng ngallu pobl i garu a bod yn garedig i'w gilydd. Dwedodd: 'Does neb yn cael ei eni yn casáu person oherwydd lliw ei groen, neu ei gefndir, neu ei grefydd. Mae pobl yn gorfod dysgu sut i gasáu, ac os gallan nhw ddysgu sut i gasáu, fe allan nhw hefyd ddysgu i garu, oherwydd mae'r galon ddynol yn ei chael hi'n rhwyddach i garu na chasáu.'*

*Bu farw Nelson Mandela yn ei gartref yn Ne Affrica ar 5 Rhagfyr 2013. Yn dilyn ei farwolaeth roedd llawer o bobl ar draws y byd yn drist, wrth iddynt alaru am yr arwr ysbrydoledig a gollwyd. Ond mae cymaint i'w ddathlu yn ei fywyd rhyfeddol, a heddiw yr ydym am ystyried rhai o'i eiriau.*

*Roedd Nelson Mandela yn credu'n gryf bod pobl ifanc – fel chi - yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr yn y byd ac roedd yn credu y dylai pobl wneud popeth posibl i fyw bywydau llawn cariad, gobaith a gofal am eraill.*

**Dangos sleid 6.** *Ar hyd ei fywyd, fe barhaodd i siarad yn erbyn tlodi ac anghyfiawnder. Fel person hŷn, fe alwodd ar bobl ifanc i gymryd yr her a pharhau gyda'i ymdrechion ef i ddileu tlodi. Yn 2005, dwedodd: 'Nid gweithred elusennol yw gorchfygu tlodi, mae'n weithred o gyfiawnder. Fel caethwasanaeth ac apartheid, nid yw tlodi'n beth naturiol. Mae'n cael ei greu gan bobl ac fe ellir ei ddileu drwy weithredoedd pobl. Weithiau mae'n syrthio ar un genhedlaeth i fod yn fawr. Fe allwch chi fod y genhedlaeth fawr honno. Gadewch i'ch mawredd flodeuo.'*

*Does dim rhaid bod yn enwog i wneud gwahaniaeth nac i fod yn rhan o rywbeth mawr. Weithiau, gallwn wneud newidiadau bach er mwyn cael effaith ar bethau sy'n golygu rhywbeth i ni. Gall y rhain fod yn bethau yr ydym yn ceisio eu gwneud er mwyn y byd, neu fe allant fod yn bethau sy'n agosach i adref.*

*Gofynnwch i'r disgyblion i awgrymu pethau gallan nhw eu gwneud er mwyn gwneud bywyd yn well/mwy teg.*

*Gall fod yn anodd wrth wynebu sefyllfa rydych chi am ei newid – neu pan fod rhywbeth sy'n golygu rhywbeth i chi yn cael ei fygwth. Ond mae'n rhyfeddol faint o wahaniaeth gellir ei wneud pan fydd llawer o bobl yn codi llais yn erbyn rhywbeth sy'n* annheg.

*Gadewch i ni wneud yn siŵr ein bod bob amser yn codi llais yn erbyn yr hyn rydym ni'n eu gweld yn annheg, lle bynnag mae'n digwydd: yn ein bywyd ein hunain, yn yr ysgol neu yn y gymuned ehangach.*

**Dangos sleid 7.** *A gadewch i ni gofio bob amser geiriau Nelson Mandela: 'Beth sy'n bwysig mewn bywyd yw nid ein bod ni wedi byw. Yn hytrach y gwahaniaeth a allwn ni ei wneud i fywydau pobl eraill fydd yn penderfynu pwysigrwydd y bywyd rydym yn ei fyw.'*

POVERTY

## Gweddi

Annwyl Dduw,

Diolch i ti am ysbrydoliaeth Nelson Mandela, a ddangosodd ddewrder mawr wrth siarad yn erbyn annhegwch. Gobeithio bydd pobl yn cofio'r gwersi pwysig a ddysgwyd ganddo. Gadewch i ni fod yn ddiolchgar am y newidiadau positif sydd wedi cymryd lle a'r pethau a wnaethpwyd i wneud y byd yn lle tecach - gan bobl o bob rhan o'r byd. Gadewch i ni barhau i herio hiliaeth a cheisio gorchfygu annhegwch lle bynnag y mae. Gadewch i ni sicrhau ein bod yn rhan o'r broses o greu byd gwell.

Amen

© Cymorth Cristnogol Rhagfyr 2013
Mae enw a logo Cymorth Cristnogol yn nodau masnach Cymorth Cristnogol; mae Poverty Over yn nod masnach Cymorth Cristnogol. Rhif elusen gofrestredig y DG 1105851 Rhif cwmni 5171525